County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

Fy Nghyf: Scrutiny/Correspondence/MJH

8 Mawrth 2017

Y Cynghorydd Sarah Merry
Aelod Cabinet – Addysg a Sgiliau
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
CAERDYDD
CF10 4UW

Annwyl Sarah

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i chi am fynychu cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 7 Mawrth 2017 i roi datganiad agoriadol ac i ateb cwestiynau ar yr eitem agenda **Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2018/19** a'r **Trefniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol 2018 – 2020 – Adroddiad Cabinet drafft.** Hoffwn ddiolch hefyd i Nick Batchelar a Michele Duddridge Hussain am gyflwyno'r adroddiad ac am ateb gwestiynau'r Aelodau.

Roedd y Pwyllgor yn falch o weld yr adroddiad gan gytuno i gymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet. Fodd bynnag, pan drafodwyd y ffordd ymlaen yn y cyfarfod trafododd yr Aelodau ychydig o bryderon a nodwyd yn ystod yr ymarferiad ymgynghori ynghylch effeithiolrwydd y meini prawf derbyn presennol i ysgolion, yn benodol mewn perthynas â dalgylchoedd a phreswyliad. Nododd yr Aelodau y byddai niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn symud o Ysgolion Cynradd i Uwchradd yn y dyfodol, gan arwain at lai o leoedd gwag mewn Ysgolion Uwchradd. Felly, cytunodd y Pwyllgor awgrymu i chi o safbwynt yr ail argymhelliad sef "ymchwilio'n ehangach i opsiynau amgen", efallai ei bod hi'n amser asesu effaith ac effeithiolrwydd meini prawf derbyn amrywiol, ynghyd ag adolygiad o ddalgylchoedd ledled y ddinas.

Yn gywir



**Y CYNGHORYDD SIR RICHARD COOK**
**Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**

CC: Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes
Michele Duddridge Hussain, Rheolwr Gweithredol: Cynllunio a Gwasanaethau